CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 13 Hydref 2015 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Owain Owen, Glyn Hughes, Peredur Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Iona Phillips, Ffion Roberts, John T Rowlands, Hugh Williams

Ymddiheuriadau Is-Cadeirydd Ifan Rowlands, Geraint Owen

Ychwanegol

1 Cofnodion cyfarfod Gorffennaf a Hydref 2015

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2015 gyda Mr Arthur Jones yn cynnig a Mrs Iona Phillips yn eilio.

Nid oedd wedi bod yn bosib cynnal cyfarfod yn Medi am nad oedd quorum o'r Cyngor ar gael.

2 Datgan diddordeb

Cadeirydd, Mr Owain Owen, ar gyfer eitem 3.1 am ei fod yn cychwyn swydd newydd gyda CSYM yn yr adran tai.

3 Materion â codwyd

3.1 Parcio yn Penygroes / Gor yrru trwy Llanddeusant

Roedd y Clerc wedi gadael i PC Howell Owens wybod am car sy'n parcio yn beryglys ar gongl tai Penygroes. Ar hyn o bryd mae nifer o'r dai yn cael eu trîn felly mae'n anodd rheoli'r mater. Cadw llygad ar y sefyllfa.

Roedd Cyng John W Griffith wedi cael ymateb i arolwg traffig ynglŷn â cheir yn gor yrru trwy'r pentref. Y canlyniad ydy bod y cyfartalog yn gyrru o dan 30mya.

3.2 Neuadd Bentref Llanddeusant

Roedd Ymddiriedolwyr y Neuadd Bentref wedi cyfarfod 13 Hydref ac wedi cytuno'n unfrydol trosglwyddo cyfrifoldebau'r Neuadd i'r Cyngor Cymuned. Bu Cadeirydd y Pwyllgor yn cysylltu â'r Charities Commission gyda enwau newydd i'r Pwyllgor Neuadd, sef aelodau'r Cyngor Cymuned.

Angen mwy o drafodaeth cyn gyrru enwau newydd i'r Charities Commission: efallai bu'n peth da cadw rhai o'r Ymddiriedolwyr wreiddiol ar y Pwyllgor newydd; efallai cael pobl newydd o'r gymuned ar y Pwyllgor.

Mae'r maes parcio mewn cyflwr drwg ag angen ei glirio er mwyn gallu ei ddefnyddio. Penderfynwyd bu aelodau'r Cyngor yn gallu helpu gyda'r clirio, tori'r clô ar y giât ayyb. Mae gan y Pwyllgor dipyn o arian ar gyfer.

Yn ogystal, angen sortio allan defnydd y mynedfa o Pendref i mewn i'r maes parcio – nad i'w i fod i cael ei ddefnyddio.

4 Ceisiadau Cynllunio

4.1 47LPA1020/CC – Cais llawn ar gyfer codi adeilad amaethyddol i gadw anifeiliaid ar dir yn / Full application for the erection of an agricultural building for the purpose of housing livestock on land at : *Cott, Llanrhyddlad*

4.2a 47C140 – Cais llawn i dymchwel ystafell haul presennol ynghyd ag addasu ag ehangu yn / Full application for the demolition of the existing sun room together with alterations and extensions at : *Llynnon Hall, Llanddeusant* (disgrifiad a cynlluniau diwygiedig)

4.2b 47C140B/LB – Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer dymchwel ystafell wydr presennol ynghyd a chodi orenydd newydd yn ei le yn / Application for Listed Building Consent for the demolition of the existing conservatory together with the erection of an orangery in lieu at : *Llynnon Hall, Llanddeusant*

Derbyn y tri cais fel tablwyd am bod yr amser i'w ymateb wedi mynd heibio i'r tri cais.

5 Y Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol / Devolution, Democracy and Delivery White Paper - Reforming Local Government: Power to Local People

Llywodraeth Cymru I Y Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol

Welsh Government I Devolution, Democracy and Delivery White Paper - Reforming Local Government: Power to Local People

Bu'r Clerc yn ymateb i'r holiadyr ar y wê.

6 **Superfast Broadband :** mae o'n dod yn agosach i Llanddeusant.

7 **Cymorth Cynllunio Cymru –** gweithdy hyfforddiant – 27 Hydref @ 5.30 – 8.30pm : Cadeirydd a'r Clerc i fynd.

8 **Swyddfa Archwilio Cymru –** Trefniadau Archwilio Allanol: Ffurflenni Blynyddol 2015-16, 2016-17 a 2018-19 : Mi fydd trefniadau newydd yn cychwyn yn 2015-16 gyda cwmni o'r enw BDO o Southampton yn cymeryd drosodd gan UHY Hacker Young.

9 **UnLlais Cymru –** Pwyllgor Môn, 22 Hydref : Ymddiheuro, neb ar gael i fynd.

10 **National Grid –** Cyfarfod â Cynghorau, 28 Hydref, 2.30-4.30 : Ymddiheuro, neb ar gael i fynd.

11 **Unrhyw fater arall**

11.1 **Melin Llynnon:** Roedd erthyglau wedi bod yn y wasg yn deud bod CSYM yn meddwl cael madael o saflaeoedd twristiaeth fel Melin Llynnon ag yn ymgynghori gyda'r cynghorau lleol. Nad oedd hyn wedi digwydd ag oedd y BBC wedi bod mewn cysylltiad – Is-Cadeirydd i ymateb. Penderfynwyd danfon datganoliad o diddordeb i'r CSYM er mwyn trafod ym mhellach a cael mwy o wybodaeth.

11.2 Cae Bach, Llanddeusant: Roedd nifer o'r aelodau wedi sylwi bod shed amaethyddol yn cael ei codi yn Cae Bach, y barn oedd nad oedd angen caniatad cynllunio i storio peiriannau yn beth bynnag.

Ebost ers 28 Gorffennaf 2015

CSYM:

1. Cylchlythyr Datblygu Economaidd - Awst 2015 (Swyddogol) / Economic Development Newsletter - August 2015 (Official)
2. Grant Asda £2000 Asda Grant
3. Gronfa ar gyfer Gwella Amgylchedd a'r Gymuned / The Environmental and Community Improvement Fund
4. Ynys Mon - Band Eang Cyflym / Anglesey - Superfast Broadband

UnLlais:

1. Grant Cystadleuol 2016 Cyfoeth Naturiol Cymru / 2016 Natural Resources Wales Competitive Grant
2. Legal Topic Notes from NALC - Nodiadau Pwnc Cyfreithiol gan NALC
3. Datganiad Adolygiad Gofal Preswyl / Care Home Review Statement
4. Public Appointments Opportunity – Commissioner - Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales / Cyfle Penodiadau Cyhoeddus - Comisiynwr - Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
5. Ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Gasglu a Rheoli Trethi (Cymru) / The Finance Committee Consultation on Tax Collection and Management (Wales) Bill
6. Ymgynghoriad ar Arolwg Siarter y BBC / BBC Charter Review Consultation
7. Llythyr gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / Letter from the Minister for Public Services
8. Protecting Community Assets Consultation –
9. http://gov.wales/consultations/people-and-communities/protecting-community-assets-consultation/?lang=en
10. http://gov.wales/consultations/people-and-communities/protecting-community-assets-consultation/?skip=1&lang=cy
11. Independent Remuneration Panel Survey / Arolwg ar gyfer Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
12. Reminder - One Voice Wales 2015 Conference and AGM / Nodyn Atgoffa - Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2015
13. Wales Audit Office Newsletter / Newyddlen Swyddfa Archwilio Cymru
14. One Voice Wales September Trainings - Hyfforddiant Un Llais Cymru Mis Medi

Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru: CIC yn annog y cyhoedd i leisio eu barn am y newidiadau arfaethedig i wasanaethau merched a mamolaeth /CHC urges public to have their say on proposed changes to women's and maternity services

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd & Môn : Newyddlen Gorffennaf 2015

SLCC : Newsletter

Ynys Môn Citizens Advice: The People's Forum : 10th September @ 6.00pm in Oriel Môn

Helping Hands: Sign up for the SIA London Bridges Walk - walking, running and wheeling 10k challenge